# Ysgoloriaeth Waldo Williams
# Telerau ac Amodau

1. Rhaid i ymgeiswyr fod yn gwneud cais i astudio'n llawn amser neu'n rhan amser am radd mewn unrhyw bwnc israddedig o Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd Prifysgol Aberystwyth.

2. Mae'r Ysgoloriaeth ar gael i ymgeiswyr iaith gyntaf, ail iaith a dechreuwyr pur sy'n astudio yn Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd.

3. Bydd y Panel Dyfarnu yn cyfarfod i benderfynu ar y dyraniadau; mae penderfyniad y Panel Dyfarnu yn derfynol.

4. Bydd cynnydd academaidd anfoddhaol, neu gynnydd anfoddhaol yn unrhyw un o'r meysydd hyn, heb reswm da, yn arwain at derfynu'r dyfarniad.

5. Bydd taliadau yr ysgoloriaeth yn cael ei wneud mewn rhandaliadau cyfartal yn uniongyrchol i gyfrifon banc y derbynwyr yn ei blwyddyn cyntaf o astudio. Gwneir y taliad cyntaf yn mis Rhagfyr, a'r ail yn mis Mawrth.

6. Bydd Myfyrwyr sy'n gohirio mynediad yn derbyn Ysgoloriaethau/Bwrsariaethau ar y lefel a hysbysebwyd ar gyfer y flwyddyn gais.

7. Cyfrifoldeb y myfyrwyr unigol yw darparu manylion dilys y banc pan ofynnir iddynt amdanynt. Os nad ydynt yn rhoi'r manylion hynny erbyn y dyddiad penodedig, ni fydd yr arian yn cael ei dalu. Os na ddarperir manylion cyfrif banc erbyn y dyddiad penodedig, ni fydd gan ddeiliad y grant hawl i dderbyn taliad y flwyddyn honno. Gall taliadau blynyddoedd diweddarach barhau os bydd deiliad y grant yn darparu manylion ei gyfrif banc erbyn y dyddiadau penodedig ar gyfer y blynyddoedd hynny.

8. Bydd taliadau i fyfyrwyr sy'n tynnu'n ôl dros dro yn ailgychwyn o ddechrau'r tymor llawn nesaf pan ailgychwynnant ar eu hastudiaethau (ni fydd unrhyw daliadau sy'n weddill o'r tymor pan dynnant yn ôl yn cael eu talu).

9. Mae'n bwysig cofio, os y byddwch mewn dyled i'r Brifysgol, y bydd taliadau'r Ysgoloriaeth neu Fwrsariaeth yn cael eu dal yn ôl a'u defnyddio yn erbyn y ddyled.

10. Os bydd myfyriwr yn tynnu'n ôl o'u hastudiaethau am byth cyn Rhagfyr 1af, bydd y Swyddfa Gyllid yn hawlio'r cyfan o'r taliad cyntaf yn ôl. Os bydd myfyriwr yn tynnu'n ôl am byth rhwng Rhagfyr 1af a Mawrth 2il, bydd y Swyddfa Gyllid yn hawlio yn ôl y cyfan o'r ail daliad. O dan yr amgylchiadau hyn, os nad yw'r symiau yn cael eu had-dalu, mae'n bosibl y bydd yr achos yn cael ei gyfeirio at asiantaeth casglu dyledion y Brifysgol.

11. Mae'r wybodaeth a geir yn y ddogfen hwn yn berthnasol i fyfyrwyr a fydd yn ymgymryd â'u hastudiaethau yn Aberystwyth yn unig, ac nid yw'n berthnasol i fyfyrwyr sy'n astudio rhaglenni breiniol neu raglenni wedi'u dilysu a gyflwynir gan bartneriaid.

12. Mae Prifysgol Aberystwyth yn cadw'r hawl i newid neu ddileu unrhyw un o'n Hysgoloriaethau, Bwrsariaethau a Gwobrau Ariannol cyfredol.

13. Bydd methu â bodloni unrhyw un o'r gofynion uchod yn arwain at dynnu'r Ysgoloriaeth yn ôl.